CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 05 Mai Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 13 o Fai 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), Y Cynghorwyr Arnallt James, Carwyn James, Anthony Richards, Menna Roberts, Annette Price, Loreen Lewis, Catherine Smith, June Gunter, Anne Sizmur a'r Cynghorwr Sir Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Richard Howell a Maldwyn John.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 8fed o EBRILL 2009.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Anthony Richards fod cofnodion cyfarfod yr 8fed o Ebrill 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Fe ddarllenod y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth Cyfreithwyr Llys Cennen ynglyn â Clwb Rygbi'r Betws. Mae'r Clwb wedi hyfforddi Cyfreithwyr gwahanol i gynrychioli nhw ynglyn a'r mater hon. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Cyfreithwyr Llys Cennen i gael gwybodaeth ddiweddaraf ynglyn a'r mater hon.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr yn anfodus nid yw Atech Graffig a Arwyddion (Llanelli) yn gallu rhoi'r bwrdd hysbysu i fyny oherwydd nid oes ganddynt tystysgrif gwaith. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau ein bod nhw'n bodlon casglu'r bwrdd ac rho i fyny tu allan i Ysgol Gynradd y Betws, ni fydd y gost yn fwy nag £200. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin i gasglu'r bwrdd ac yn rho i fyny tu allan i Ysgol Gynradd y Betws. Hefyd PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cyngor Sir yn cysylltu â Cynghorwr Annette Price ynglyn a ble i lleoli'r bwrdd.

2.3 Ysgol Gynradd y Betws.
Mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad wrth Ysgol Gynradd y Betws ei bod nhw'n bodlon i'r Cyngor Cymuned gyhoeddi yn papur y Guardian ynglyn a'r mainc picnic mae'r Cyngor Cymuned wedi prynnu i'r Ysgol. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Anthony Richards yn cysyllu gyda papur y Guardian.

2.4 Bin a meinciau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr bod y bin a'r pedwar mainc wedi cael eu osod ym Mharc y Betws. Nodwyd y Clerc taw dim ond dau mainc delau cael eu osod ym Mharc y Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i archebu dau mainc arall am Heol Pentwyn a Treforis.

2.5 Golau Solar am Parc y Betws – Gardd Synhwyro a Choffa.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cael eu drefnu am dydd Iau y 23 o Ebrill 2009 ond yn anfodus nid oedd y Cynghorwyr wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod y Clerc yn trefnu cyfarfod arall gyda 'Sunset Solar'.

2.6 Goleuadau Tymherol/Croeso am Cymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cael eu drefnu am dydd Iau y 23 o Ebrill 2009 ond yn anfodus nid oedd y Cynghorwyr wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod y Clerc yn trefnu cyfarfod arall gyda 'Sunset Solar'.

2.7 Gorchymyn Cadwraeth.
Dywedodd y Cynghorwr Arnallt James fod ffens wedi cael eu rhoi amgylch y Goden Dderw Americanaidd ar Safle Gwaith Glo hen y Betws. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.8 Cyfarfod Diogelwch y Briffordd.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda Mr McEvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin am Ddydd Gwener y 12 o Fehefin 2009 am 3 o'r gloch. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau i weld os gall y cyfarfod ddechrau am nau llau 9.30y.b. neu 11.45y.b. oherwydd yn ystod yr amersau hyn mae'r traffig mwy brysur ym Metws.

2.9 Cynnal a Chadw'r Llwybrau Troed.
Roedd y Cynghorwyr yn pryderu am ba fath o wasanaeth fu nhw'n derbyn wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a chynnal a chadw'r llwybrau troed o fewn Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda'r Adran Hawliau Tramwy. Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr fod neb yn cynnal a chadw'r pedwar bocs blodau'r Cyngor Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Lewis is weld os oes ganddo diddordeb.

2.10 Llwybr Troed 3/12 yn arweinio o Pantybanwen i Banc y Wern, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ebost wrth Gary Carlsen, sydd wedi cadarnhau fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn y broses o prosesu ffurflen gais wrth preswylydd o Betws ar y llwybr hon. Os yw'r cais yn llwyddiannus ac fu nhw'n cadarnhau'r archeb fydd y llwybr yn cael ei agor gan Cyngor Sir Caerfyrddin. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.11 Llythyr a danfonwyd at Mr Jones.
Darllenodd y Clerc copi o llythyr a danfonwyd at Mr Jones yn gofyn iddo os oedd Canolfan Cymuned y Betws wedi rhoi caniatad cynllunio i glwb rygbi'r Betws adeiladu ei ty clwb newydd peth amser yn ôl. Roedd y Cynghorwyr yn hapus gyda chyd-destun y llythyr a fe NODWYD y pwynt uchod.

2.12 Clwb Pêl Droed y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynhorwyr ei bod hi wedi derbyn ebost wrth Mr Davies o Clwb Pêl Droed y Betws sydd eisiau cael cyfarfod gyda'r Cynghorwyr, i drafod dyfodol y clwb. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda Mr Davies.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnaduwyd a nodwyd y canlynol.
•Chwarae i Gymru – rhoddwyd i Gynghorwr Betsan Jones.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Gwasanaeth Bws – rhoddwyd i Gynghorwr June Gunter.
•Un Llais i Gymru – Cynhadledd a AGM 2009.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Nid oedd gan Cyngor Cymuned y Betws unrhyw gwrthwynebiad ynglin a'r cais cynllunio canlynol:-

E/20904 – Creu mynediad i tir amaethyddol, tir ger Heol Cwmfelin, Betws, Rhydaman (5-2009/10).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1. Lwfans y Gadeiryddes (rhandal cyntaf) £200.00
2. Cyngor Sir Caerfyrddin (Cost Etholiad 2008) £119.52
3. Morgan & Morgan (gwarant gliniadur) £171.35
Cyfanswm £490.87
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i dalu'r bil uchod.

5.2. Incwm.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin (rhandal cyntaf y Praecept) £4666.66

NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones a PCSO Sherri Treharn y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PC Kevin Jones fod yna 6 trosedd i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Ebrill.

Adroddodd PC Kevin Jones ar y materion canlynol:-
1.Mae Cyfarfodydd Misol y Cymdogaeth wedi newid i PACT (Police and Community Team Meetings), mae nhw'n cael eu gynnal ar yr ail dydd Mawrth pob mis.
2.Mae'r Heddlu am graddol ddiddymu Swyddogion yr Heddlu am fod yn bresennol yn cyfarfodydd Cynghorau Cymunedol, cadarnhaodd ei fod ef yn mynd i parhau fod yn bresennol yn Cyfarfodydd Cyngor Cymuned y Betws, oherwydd mae yna rhwydwaith cyfarthrebu da.
3.Os oes gan y Cynghorwyr unrhyw ymholiadau nid yw'n brys gallant ffonio 101.

Adroddodd y Cynghorwyr ar y materion canlynol:-
1.Mae cerbydau yn cyflymu ar hyd Heol Maescware. Roedd yna berson yn gyrru beic scrambler quad ar hyd Heol Maescware. Adroddodd PC Kevin Jones ei fod ef wedi siarad gyda'r gwr bonheddig.
2.Mae'r broblem yn Maesyberllan a Treforis wedi dechrau eto. Adroddodd PC Kevin Jones fydd yn edrych mewn i'r mater hwn, dywedodd wrth y Cynghorwyr i ddweud wrth y preswylwyr i ffonio 101 os oes ganddynt unrhyw ymholiadau nid yw'n brys.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd gan Cynghorwr Sir Audrey Jones unrhyw adroddiadau.

Gofynnodd y Cynghorwr Catherine Smith am gwybodaeth ddiweddaraf ynglyn a'r problem ar Heol y Mynydd roedd hi wedi adrodd rhai misoedd yn nol. Dywedodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones ei bod hi wedi dweud wrth Cyngor Sir Caerfyrddin.

Roedd y Cynghorwr Anthony Richards yn synnu nid oedd gan y Cynghorwr Sir unrhyw adroddiadau oherwydd fe adroddodd Cynghorwr Cymuned mis diwethaf ar materion o Cyfarfodydd Cyngor Sir Caerfyrddin. Gofynodd oes oedd hi'n gallu dweud wrth y Cynghorwyr ba cyfarfodydd mae hi wedi bod yn bresenol, achlysuron ayyb. Dywedodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fydd hi'n rhoi adroddiad llawn yn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Canolfan Gynghori.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price yn anfodus nid yw hi'n gallu trafod manylion achos y

llys gyda'r Cynghorwyr ond os oes gan y Cynghorwyr unrhyw ymholiadau i cysylltu a Canolfan Gynghori neu'r Heddlu. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.2 Lle Chwarae (Treforis & Heol y Felin).
Fe ddangosodd y Cynghorwr Annette Price cynllun manwl o lle chwarae Treforis, fydd y gost o sefydlu'r lle chwarae yn £115,000. Fydd y gost o diweddaru lle chwarae Heol Y Felin yn £40,000. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.3 Picnic ym Mharc y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi gwneud ymholidau ynglyn a cynnal picnic ym Mharc y Betws. Mae'r gost o llogi castell neidio yn £450, mae'r gost o llogi wal dringo yn £450, mae'r gost o llogi'r band yn £200. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.4 Heol y Llwch, Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Loreen Lewis fydd gwaith yn dechrau ar fyr ar trwsio'r bont ger Heol y Llwch. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Clwb Rygbi Rhydaman.
Dywedodd y Cynghorwr Betsan Jones wrth y Cynghorwyr fod Clwb Rygbi Rhydaman wedi ennill cwpan SWALEC dydd Sadwrn diwethaf ac roedd him am ddanfon llythyr i longyfarch nhw are eu llwyddiant. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price fydd yn neis rhoi cofrodd iddynt wrth y Cyngor Cymuned ac hefyd i Shane Williams. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu a Clerc Llandybie a fu'n gallu rhoi enw cwmni fydd yn gallu cyflenwi nhw.

9.2 Llwybr troed 3/14 Waunddwfn i Heol Wern Olau.
Adroddodd y Cynghorwr Arnallt James fod rhan uchaf llwybr troed 3/14 yn arweinio o Waunddwfn i Heol Wern Olau wedi cael eu rhwystro. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gary Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.3 Cyngor Cymuned y Betws – Rhaglen Cerdded.
Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Cynghorwyr yn dechrau cerdded y llwybrau troed o fewn Betws. Awgrymodd i gerdded ar ddydd Mercher y 20 o Fai 2009, am 6 o'r gloch yn cyfarfod tu allan i dy Cynghorwr Anne Sizmur. Cytunwyd y Cynghorwyr.

9.4 Ysgol Gynradd y Betws.
Awgrymodd y Cynghorwr Anthony Richards fod y Cyngor Cymuned yn danfon llythyr i longyfarch Ysgol Gynradd y Betws am gael Gwobr Arian Eco. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr at Ysgol Gynradd y Betws.